

# DOLEN Y TAB 96

4–5 Mawrth 2022

Bore Sul 6 Mawrth am 11

**Oedfa gymun yng nghwmni Iwan Rowlands a Ceri Anwen, gyda Sian Elin wrth yr organ.**

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

**Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.**

## YR OEDFAON NESAF

### Mawrth

13 Aled Edwards a Bethan Guilfoyle

20 Rowland a Marian Wynne

27 Gethin Rhys a Huw Roberts

### Hefyd ddydd Sul 6 Mawrth

**12:00 Oedfa Radio Cymru**

Gwasanaeth dan ofal Rowan Williams, Caerdydd.

**12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg**

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

**19.30–20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol –**

Bydd Lisa'n cwrdd â'r Parchedig Manon Ceridwen James, un o'r merched cyntaf yng Nghymru i gael ei hordeinio'n offeiriad. A chawn glywed hanes merch sy'n mentro ar yrfa newydd yn y weinidogaeth, sef y Parchedig Sian Elin Thomas.

**E-fwletin Cristnogaeth21**

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### Dymuniadau Gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Ken Jones wedi iddo dderbyn llawdriniaeth lwyddiannus yn Ysbyty Llantrisant yn gynharach yn yr wythnos.

### Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 8 Mawrth. Os hoffech godi unrhyw fater i'w drafod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 7 Mawrth naill ai drwy ffonio 01443 225205 neu e-bost i [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) neu neges testun i 07710 237327.

### Rhestr Flodau

Gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau am y flwyddyn 2022 wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Mae croeso i chi dorri eich enw ar gyfer Sul sy'n gyfleus. Ar hyn o bryd, mae nifer fawr o Suliau gwag y medrwch ddewis o'u plith.

## ARGYFWNG WCRÁIN

A ninnau i gyd wedi ein brawychu gan erchyllterau Pwtin yn Wcráin, bu cryn holi a dyfalu am y ffordd orau i helpu'r bobl yn y fath argyfwng, yn yr hir-dymor yn ogystal ag ar frys. Penderfynwyd ein bod yn cefnogi apêl a sefydlwyd nos Fawrth gan Cymorth Cristnogol, sef:

### UKRAINE CRISIS APPEAL – CHRISTIAN AID

Mae Cymorth Cristnogol bob amser yn gweithio gyda phartneriaid lleol ym mhob argyfwng, ac yn medru saernïo eu cymorth yn effeithiol, a ninnau wedi ymateb i argyfyngau drwyddyn nhw yn y gorffennol. Drwy anfon arian atyn nhw yn enw'r Tabernacl, fe wyddom y bydd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a mwyaf effeithiol.

**Gallwch wneud trosglwyddiad banc:**

Cod didoli: 30 - 96 - 72

Rhif cyfrif : 03607499

gan nodi **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol**.

### Neu

Gallwch anfon siec at ein trysorydd:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi ar gefn y siec **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol**.

### Neu

Gallwch roi cyfraniad mewn amlen yn y blwch casglu yn y cyntedd, gan nodi **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol**.

### DIOLCH YN FAWR

### Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

The Interfaith Council for Wales will be holding a National Vigil for Ukraine from 7:15pm at the Senedd steps on Sunday, 6 March. **Everyone welcome**


Bydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yn cynnal Gwylnos Genedlaethol ar gyfer yr Wcráin am 7:15pm ar risiau'r Senedd nos Sul, 6 Mawrth. **Croeso i bawb**



## Pigion o'r Wasg

Yng Nghymru ddoe, 3 Mawrth, roeddem yn dathlu Diwrnod y Llyfr. Yn yr oes hon, pan gaiff degau o filiynau o bunnoedd eu buddsoddi'n flynyddol er mwyn datblygu gemau electronig i ddiwallu angen plant a phobl ifanc am ddeunydd adloniadol ac addysgol, rhaid croesawu pob ymdrech a wneir i godi'r ymwybyddiaeth ymhlith y to iau o'r holl nodweddion cadarnhaol sy'n perthyn i'r broses o ddarllen llyfr. Mor braf felly oedd gweld lluniau niferus o blant yn anelu am yr ysgol fore lau wedi eu gwisgo fel un o'u hoff gymeriadau mewn llyfr.

Ond hanes gwahanol iawn am y grym sy'n perthyn i lyfrau a dynnodd fy sylw wrth i'r rhyfel yn Wcráin ddwysáu o ddydd i ddydd yn ystod yr wythnos hon. Adroddodd Anatoly Raychynets, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Beiblau Wcráin, ei brofiad wrth



groesawu cwpl gyda thri o blant bach i'r eglwys yn Kyiv fore Sul diwethaf. Roedd y teulu yn hanu'n wreiddiol o Donetsk, ond bu'n rhaid iddynt ddiac oddi yno i Kyiv rai blynyddoedd yn ôl wedi iddynt gollu eu heiddo i gyd, ac aelodau o'u teulu, mewn brwydro. Er nad oedd y teulu wedi tywyllu eglwys o'r blaen fe'u denwyd i mewn, ac yn dilyn sgwrs gyda Raychynets cawsant gopi o'r Beibl ganddo gan ddatgan eu bwriad i ddychwelyd i'r eglwys yn yr hwyr i ymuno yn y grwpiau Beiblaidd. Doedd Raychynets ddim yn gwybod a fyddent yn cadw at eu gair ai peidio ond roedd hi'n amlwg bod cael clywed am gynnwys y Beibl wedi bod yn gysur iddynt. Aeth Raychynets yn ei flaen i ddweud bod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn brofiad chwerw-felys i staff y Gymdeithas Feiblaidd. Ar y naill law, erbyn diwedd Chwefror roeddynt wedi gwerthu bron pob un copi o gyflenwad 2022 o'r Beibl yn yr iaith tra'n gweld ar y llaw arall Wcráin yn cael ei dinistrio gan y Rwsiaid. Er eu bod yn ddiymadferth i wrthsefyll y grym milwrol, roedd am i Gristnogion weddio am ddatrysiaid diplomataidd ac i weddio hefyd dros y rhai oedd wedi ffoi o'r wlad a'r rhai oedd wedi colli anwyliaid.

**HANES CYMRU:**  
Agweddau ar hanes crefydd yng Nghymru: Cristnogaeth a'r Cymru Fodern. 1760-2000

Cyfes o dair sgwrs yng nghwmni'r Athro D. Densil Morgan

**£10 am 3 sesiwn**

Nosweithiau Llun | 19:30 | Zoom  
14.03 | 21.03 | 28.03  
I gofrestru: [mentercaerdydd.cymru/oedolion](http://mentercaerdydd.cymru/oedolion)

M.C. 2849 Ffôn: 0292092. E-bost: [caerdydd@mentercaerdydd.cymru](mailto:caerdydd@mentercaerdydd.cymru)  
M.080: 0800 834000. Ffôn: 0292092. Ffôn Cymru: 0800 770000

**Dewch i Ddathlu Dydd Gwyl Dewi (hwyr)**

*Adloniant a Lluniaeth yng nghwmni aelodau a chyfeilliom y capel*

**Dydd Sul 13eg o Fawrth  
12 o'r gloch  
Neuadd Y Pentref**

*RHAID archebu lle o flaen llaw  
Cyfraniad wrth y drws i Apel Wcrain*

**Cylch Cadwgan**

Am 7.30 Nos Iau 10 Mawrth 2022

**Delweddau o Cynan**  
Yr Athro Gerwyn Williams

Trefnir gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cyfarfod rhithiol fydd hwn.

I dderbyn y ddolen Zoom anfonwch at:  
[capelytabernacl@gmail.com](mailto:capelytabernacl@gmail.com)

**BABI TWM**

Y Ganolfan, Capel Tabernacl 10.00-11.30

**7fed, 21ain o Fawrth, 4ydd o Ebrill**

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau

Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpenwgern@yahoo.co.uk](mailto:gehpenwgern@yahoo.co.uk)